

Hysbysiad hwylus

Y Cyfansoddiad – Mesurau Cynulliad

Ebrill 2007

Beth yw Mesurau Cynulliad?

O dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (“y Ddeddf”) mae’r Cynulliad yn cael pasio deddfwriaeth, o’r enw “Mesurau Cynulliad”, mewn materion lle mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol.

Mae Adran 95 o’r Ddeddf, ynghyd ag Atodlen 5, yn nodi hyd a lled cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad drwy restru “Meysydd” datganoledig a “Materion” ym mhob Maes. Caniateir i Atodlen 5 gael ei diwygio i ychwanegu “Materion” gan ehangu cymhwysedd cyfreithiol y Cynulliad. Gall hyn gael ei wneud naill ai drwy Ddeddf Seneddol, neu drwy Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) a gymeradwyir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chan y ddau dŷ yn Senedd San Steffan. (Gweler yr [Hysbysiad Hwylus Cyfansoddiadol ar Orchymynion Cymhwysedd Deddfwriaethol](#))

Ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â’r cyfyngiadau a nodwyd gan Adran 95 ac Atodlen 5, gall Mesur Cynulliad gael yr un effaith â Deddf Seneddol. Mewn geiriau eraill, mae’n gallu, er enghraifft, diwygio Deddfau Seneddol presennol neu ddeddfiadau eraill ac mae’n gallu gwneud darpariaethau newydd nad yw statudau presennol yn eu cynnwys.

Er hynny, mae hawl Senedd San Steffan yn y pen draw i ddeddfu mewn perthynas â Chymru, hyd yn oed ynghylch mater y mae cymhwysedd deddfwriaethol drosto wedi’i roi i’r Cynulliad, wedi’i chadw.

Y Gweithdrefnau ynglŷn â Mesurau Cynulliad

Y gofynion yn y Ddeddf

Mae’r Ddeddf yn gosod gofynion penodol o ran cyflwyno Mesurau Cynulliad arfaethedig yn y Cynulliad.¹ Mae’n dweud y caniateir i Fesur Cynulliad arfaethedig gael ei gyflwyno, yn amodol ar ddarpariaethau’r Rheolau Sefydlog, gan Brif Weinidog Cymru, unrhyw un o Weinidogion Cymru, unrhyw un o ddirprwy Weinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol neu unrhyw Aelod o’r Cynulliad.

Wrth i’r Mesur gael ei gyflwyno, neu cyn hynny, mae’r person sydd â gofal Mesur Cynulliad arfaethedig yn gorfod gwneud datganiad sy’n mynegi ei farn bod y darpariaethau yn y

¹ *Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adrannau 97, 98*

Mesur o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Wrth i'r Mesur gael ei gyflwyno, neu cyn hynny, mae'r Llywydd yn gorfod penderfynu a yw'r Mesur Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu beidio a datgan y penderfyniad hwnnw.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog y Cynulliad gynnwys darpariaethau penodol ynglŷn ag ystyried a phasio Mesurau Cynulliad, ac un o'r rhain yw bod rhaid, yn gyffredinol, i Fesur fynd drwy dri chfnod.

- Rhaid cael trafodaeth gyffredinol a phleidlais ar yr egwyddorion cyffredinol;
- Yna rhaid cael cyfnod sy'n cynnwys ystyried a phleidleisio ar fanylion y Mesur;
- Rhaid cael cyfnod pryd y caiff yr Aelodau bleidleisio a ddylai'r Mesur gael ei basio yn ei ffurf derfynol neu beidio.²

Rhaid i'r Rheolau Sefydlog gynnwys darpariaeth mai dim ond os yw testun y Mesur arfaethedig yn Gymraeg a Saesneg y caniateir i Fesur Cynulliad arfaethedig gael ei basio (er y caiff y Rheolau Sefydlog bennu esemptiadau).

Gwahanol fathau o Fesur Cynulliad

Mae Rheol Sefydlog 23 yn nodi gweithdrefnau manwl i'r Cynulliad graffu ar Fesurau.³ Mae'n darparu y bydd termau gwahanol yn cael eu defnyddio i ddisgrifio Mesur arfaethedig, yn ôl pwy sy'n gyfrifol am ei gyflwyno, sef:

- Mesurau arfaethedig Llywodraeth.
- Mesurau arfaethedig Pwyllgor.
- Mesurau arfaethedig Comisiwn.
- Mesurau arfaethedig Aelod.

Ni chaiff aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn Aelod sy'n gyfrifol am Fesur arfaethedig Pwyllgor, Mesur arfaethedig Pwyllgor na Mesur arfaethedig Comisiwn.

Cyflwyno Mesur

Rhaid i Fesur arfaethedig gael ei gyflwyno drwy gael ei osod yn ei ffurf briodol yn unol ag unrhyw benderfyniadau sydd wedi'u gwneud gan y Llywydd. Rhaid cael datganiad Cymraeg a Saesneg gan y Llywydd i gyd-fynd â'r Mesur arfaethedig a rhaid i'r datganiad hwnnw:

- nodi a fyddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; a
- nodi unrhyw ddarpariaethau na fyddent, ym marn y Llywydd, o fewn cymhwysedd

² *Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 98(1)*

³ *Y Pwyllgor Rheolau Sefydlog, Adroddiad, 31 Ionawr 2007, Rheol Sefydlog 23*

deddfwriaethol y Cynulliad a'r rhesymau dros y farn honno.

Rhaid i Fesur arfaethedig gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, ac eithrio yn yr achosion canlynol:

- pan fydd yr Aelod cyfrifol, o ran Mesur arfaethedig Llywodraeth, yn datgan mewn ysgriflen na fyddai, am resymau penodedig, yn briodol o dan yr amgylchiadau neu'n rhesymol ymarferol i'r Mesur arfaethedig gael ei gyflwyno yn y ddwy iaith; neu
- pan nad yw gwneud hynny yn cyd-fynd â phenderfyniadau a roddwyd gan y Llywydd.

Dogfennau i gyd-fynd â Mesur arfaethedig

Yr un pryd ag y bydd Aelod yn cyflwyno Mesur arfaethedig, mae'n rhaid hefyd iddo osod Memorandwm Esboniadol sy'n gorfod cynnwys ystod o wybodaeth fanwl, gan gynnwys barn yr Aelod ynghylch a fyddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad; amcanion polisi'r Mesur arfaethedig; manylion y Mesur arfaethedig ac amcangyfrifon ynglŷn â'r costau.

Ystyried Mesur arfaethedig

Cyfnod 1: Ystyried yr Egwyddorion Cyffredinol

Ar ôl i Fesur arfaethedig gael ei gyflwyno, bydd y gwaith o ystyried yr egwyddorion cyffredinol yn cael ei wneud gan Bwyllgor Mesur (er y gall y rhan hon o'r broses gael ei hepgor). Ar ôl i Bwyllgor Mesur gyflwyno adroddiad (neu os bydd hyn yn cael ei hepgor) bydd y Cynulliad yn pleidleisio mewn cyfarfod llawn a ddylai'r egwyddorion cyffredinol gael eu cytuno neu beidio.

Mae Cyfnod 1 ar ben pan fydd egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig wedi'u cytuno neu pan fydd y Mesur yn syrthio o dan Gyfnod 1.

Cyfnod 2: Ystyriaeth Fanwl gan Bwyllgor

Os yw'r Cynulliad wedi cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, wedyn mae'n cael ei ystyried yn fanwl naill ai gan Bwyllgor Mesur neu gan bwyllgor o'r Cynulliad cyfan. Caniateir i Fesur arfaethedig gael ei ddiwygio yn ystod y cyfnod hwn. Bydd pob gwelliant sy'n cael ei gyflwyno yn cael ei ystyried.

Mae Cyfnod 2 ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i chytuno gan y pwyllgor, p'un bynnag yw'r olaf.

Cyfnod 3: Ystyried y Mesur arfaethedig yn y Cyfarfod Llawn

Mae'n rhaid i drafodion Cyfnod 3 ar Fesur arfaethedig gael eu hystyried gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn. Caniateir i Fesur arfaethedig gael ei ddiwygio yn ystod y cyfnod hwn. Caiff y Llywydd ddewis gwelliannau i gael eu hystyried.

Mae Cyfnod 3 ar ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i chytuno gan y pwyllgor, p'un bynnag yw'r olaf.

Cyfnod 4: Y Cyfnod Terfynol

Yn union ar ôl i drafodion Cyfnod 3 gael eu cwblhau, caniateir i gynnig gael ei wneud y dylai'r Mesur arfaethedig gael ei basio. Fel arall, gall y bleidlais a ddylai'r Mesur arfaethedig gael ei basio neu beidio gael ei threfnu ar gyfer dyddiad arall yn nes ymlaen.

Os oes Mesur arfaethedig wedi'i basio gan y Cynulliad, bydd y Clerc yn ei gyflwyno i gael ei gymeradwyo gan y Frenhines yn y Cyngor. Ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, mae'n rhaid i'r Clerc ysgrifennu dyddiad y gymeradwyaeth honno ar destun y Mesur, cyhoeddi'r offeryn y cymeradwywyd y Mesur drwyddo ac, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mynegi dyddiad y gymeradwyaeth i'r Cynulliad.

Balot ymhlith yr Aelodau ar gyfer Mesur arfaethedig Aelod

O dro i dro, mae'n rhaid i'r Llywydd gynnal balot i benderfynu ar enw Aelod, heblaw aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n dymuno cyflwyno Mesur arfaethedig Aelod.

Rhaid i'r Llywydd gynnwys yn y balot enw pob Aelod sydd wedi gwneud cais am gael ei gynnwys ac sydd wedi gosod gwybodaeth cyn y balot, sef teitl arfaethedig y Mesur arfaethedig a Memorandwm Esboniadol yn amlinellu amcanion polisi'r Mesur arfaethedig a manylion unrhyw gymorth y mae'r Aelod wedi'i gael, gan gynnwys unrhyw ymgynghori a wnaed.

O lwyddo mewn balot, mae'n rhaid i'r Aelod ofyn caniatâd y Cynulliad i gyflwyno'r Mesur arfaethedig.

Ni chaiff Aelod sydd wedi ennill y balot o'r blaen wneud cais eto yn yr un Cynulliad.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar y Cyfansoddiad, cysylltwch ag **Alys Thomas** (Alys.Thomas@Cymru.gsi.Gov.UK), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

- Gallwch weld rhestr lawn o [hysbysiadau hwylus](#) yma.
- [Geirfa](#)

MRS07/0717/Alys Thomas

Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@cymru.gsi.gov.uk